**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau'r Economi ac Isadeiledd

**Cyfarfod Aml-leoliad – Ystafell Gaerloyw, Neuadd y Ddinas/MS Teams**

**Dydd Iau, 21 Medi 2023 am 2.00pm**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd P Downing (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| Y Cynghorwyr | Y Cynghorwyr | Y Cynghorwyr |
|---|---|---|
| C R Doyle | W G Lewis | P Lloyd |
| S J Rice | W G Thomas | T M White |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Lewis Hinds | Rheolwr Gwasanaethau Cleientiaid, Gwasanaethau Eiddo |
| Phil Holmes | Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas |
| Steve Hopkins | Rheolwr Twristiaeth a Marchnata |
| Frances Jenkins | Rheolwr Strategol - Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau |
| Geraldine Williams | Swyddog Datblygu Twristiaeth |
| Samantha Woon | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd R Francis-Davies – Aelod y Cabinet dros Adfywio, Digwyddiadau a Thwristiaeth

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd/wyr: N L Matthews

---

## 14 Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 15 Cofnodion:

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau'r Economi ac Isadeiledd a gynhaliwyd ar 20 Gorffennaf 2023 fel cofnod cywir.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr ymweliad safle diweddar â Langland a'r Mwmbwls a nododd nad oedd adroddiad ar gael i'w ystyried yn y cyfarfod heddiw. Adroddodd y byddai ymweliad safle arall yn cael ei drefnu cyn y cyfarfod nesaf.

Ar ran y Pwyllgor, diolchodd i Reolwr Gwasanaethau Cleientiaid y Gwasanaethau Eiddo Corfforaethol am ei gymorth dros y blynyddoedd a dymunodd yn dda iddo yn ei yrfa yn y dyfodol.

## 16 Cynllun Rheoli Cyrchfannau 2023-2026

Cyflwynodd y Rheolwr Twristiaeth a Marchnata Gynllun Rheoli Cyrchfannau (CRhC) 2023-2026 ar gyfer Abertawe.

Darparodd ddiffiniad ar gyfer CRhC, gan ddarparu manylion ynghylch y canlynol:

- adferiad economi ymwelwyr Abertawe
- Y tri darn strategol o ymchwil sy'n llywio'r CRhC
- Blaenoriaethau a chanlyniadau strategol
- Y darlun mwy (gan gynnwys prosiectau a gwblhawyd, datblygiadau)
- Economi ymwelwyr Abertawe
- Ffigurau defnydd ystafelloedd mewn gwestai
- Ffigurau stoc gwelyau.
- Gwerth twristiaeth
- Arolwg ymwelwyr 2022 (ffeithiau allweddol am ein hymwelwyr)
- Arolwg Masnach Dwristiaeth 2022 (canfyddiadau allweddol).
- Astudiaeth o'r galw am westai yng nghanol dinas Abertawe 2022 (canfyddiadau ac argymhellion allweddol)
- Marchnata cyrchfannau.
- Digwyddiadau mawr.
- Addasrwydd strategol.
- Llywodraethu a chyflenwi.
- Sut beth yw llwyddiant.
- Edrych ymlaen at 2026.
- Yr hyn y mae ein partneriaid yn ei ddweud.

Canmolodd Aelod y Cabinet dros Adfywio, Digwyddiadau a Thwristiaeth y swyddogion (gan gynnwys swyddogion a gafodd y dasg o sicrhau cyllid grant) am eu gwaith. Cyfeiriodd at yr angen am ragor o westai yn Abertawe a'r potensial sydd i ddenu cynadleddau mawr, datblygu tacsis afon a'r galw cynyddol am lety Airbnb. Cyfeiriodd at y rhaglen gyfalaf enfawr yn Abertawe a'r cyfleoedd a ddaw yn sgil hyn.

Trafodwyd yr adroddiad gan yr aelodau a gofynnwyd cwestiynau i'r Swyddogion a ymatebodd yn briodol.

Diolchodd y Cadeirydd i Aelod y Cabinet dros Adfywio, Digwyddiadau a Thwristiaeth a'r Swyddogion am eu hadroddiad llawn gwybodaeth.

Er bod yr adroddiad yn un 'er gwybodaeth', roedd y Pwyllgor yn dymuno mynegi eu cefnogaeth i'r Cynllun Rheoli Cyrchfannau.

**17 Cynllun Gwaith 2023-2024**

Cyflwynodd y Cadeirydd Gynllun Gwaith Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau'r Economi ac Isadeiledd 'er gwybodaeth' ar gyfer 2023-2024.

Nodwyd y pynciau i'w trafod yn y cyfarfod dilynol:

- 2 Tachwedd 2023

  Prosiectau Strategaeth Bae Abertawe
  Fframwaith Strategol y Cynllun Cyflawni Economaidd Lleol

Daeth y cyfarfod i ben am 3.03pm

**Cadeirydd**